

LLOYD, SIMON (1756 - 1836), clerigwr Methodistaidd

Enw: Simon Lloyd
Dyddiad geni: 1756
Dyddiad marw: 1836
Priod: Bridget Lloyd (née Price)
Rhiant: Sarah Lloyd (née Bowen)
Rhiant: Simon Lloyd
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clerigwr Methodistaidd
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Clerigwr Methodistaidd o Blas-yn-dre yn y Bala, y tŷ mwyaf yn y dref yn 1700 meddai *Parochialia Edward Lhuud* - mewn ystordy yng nghefn y tŷ yr addolai Annibynwr y Bala nes codi eu capel. Cangen oedd Llwydiaid Plas-yn-dre o **Lwydiaid** Rhiwedog (- a gweler **J. E. Griffith**, *Pedigrees*, 234, 383), ac yr oedd 'Simon' yn enw teuluol ynddi. Priododd SIMON LLOYD o'r Rhiwedog (bu farw 1711 - efe a brynodd Blas-yndre a Moelygarnedd Anne Wynne o Langynhafal; ail fab iddynt oedd Rowland Lloyd (bu farw 1744), a briododd Winifred Pugh o Benrhyn Creuddyn; a mab iddynt hwythau oedd SIMON LLOYD, a fedyddiwyd 2 Mai 1730 ac a gladdwyd 5 Rhagfyr 1764. Daeth y Simon Lloyd hwn dan ddylanwad Methodistaeth, ac aeth ar ymweliad i Drefeca, lle y cwmpodd mewn cariad â Sarah Bowen (ganwyd 1727, bu farw 29 Ebrill 1807), 'matron' gyntaf teulu Trefeca. Cafwyd cryn drafferth i gael caniatâd **Howel Harris** i'r briodas - yn hytrach, efallai, i gael eiddo Sarah yn ôl allan o drysorfa Trefeca; ond o'r diwedd, trwy gyfryngiad **John Evans** o'r Bala, fe'u priodwyd - y mae'r cytundeb priodas i'w weld yn *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistaidd Calfinaidd*, x, 30-3. Perthynai Sarah Bowen i deulu'r Tyddyn, gerllaw Llanidloes, sy'n enwog yn hanes Methodistaeth Maldwyn - gweler ysgrif **Richard Bennett** arno, *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistaidd Calfinaidd*, viii, 57-62, a'i gyfeiriadau mynych yn *Meth. Trefaldwyn Uchaf*, a chwiliier y fynegai yn argraffiad Curnock o'r *Journals of John Wesley*. Dilynwyd Sarah Bowen (Lloyd) fel 'matron' yn Nhrefeca gan ei chwaer Hannah Bowen (1729 - 1805), a fu yno hyd farw Mrs. Harris - aeth wedyn (1771) i goleg yr iarlles Huntingdon yn Nhrefeca yn 'matron,' ond yn ddiweddarach priododd William Powell o Wrecsam; bu farw ym Mhwllheili.

Ganed i Simon a Sarah Lloyd chwech o blant. Y pedwerydd o'r rhain oedd LYDIA LLOYD, a ddaeth yn wraig i **Thomas Foulkes**. Yr hynaf oedd y Simon Lloyd y mae a wnelo'r ysgrif hon ag ef; ganwyd ef yn 1756. Dywedir iddo fynd i ysgol yn Bath, a dengys llythyr gan **Thomas Charles (D. E. Jenkins, Thomas Charles, I, 153)** iddo fod yn ysgol ramadeg y frenhines Elisabeth yng Nghaerfyrddin. Aeth i Goleg Iesu, Rhydychen, yn Ebrill 1775, a graddiodd yn 1779 (Foster, *Alumni Oxonienses*). Urddwyd ef, a bu'n gurad yn Olveston o 1779 hyd 1783, ond yna cafodd guradiaethau yn Llandegla a Bryneglwys. Collodd Fryneglwys yn Hydref 1783 am gyfathrachu â'r Methodistaidd, ond daliodd at Landegla hyd 1788. Dywedir yn fynych iddo fod yn gurad Llangwm a Cherrig-y-drudion, ond cais yn unig a wnaeth am y swydd hon, a hynny cyn gadael Olveston. Ond y mae'n sicr iddo fod yn gurad Llanycil am dymor na wyddys mo'i ddechrau (yr oedd yno yn 1796) ond a barhaodd hyd 1800 ar waethaf anghydfod rhyngddo a'i reithor gwrth-Fethodistaidd (**D. E. Jenkins**, op. cit., ii, 402, etc.). Ym mis Mai 1800 gwahoddwyd ef gan blwyfolion Llanuwchllyn i fod yn gurad y plwyf, cydsyniodd y noddwr (**Syr Watkin Williams-Wynn**) ar ôl cryn betruuster; ond gwrthododd yr esgob yn bendant (Tachwedd) ei sefydlu. O hynny allan ni bu Simon Lloyd o gwbl mewn swydd eglwysig - byddai'n gweinyddu ar dro, mor ddiweddar â 1811 beth bynnag. Wrth gwrs, nid oedd raid iddo wrth dâl. Yr oedd yn gyfaill mynwesol i **Thomas Charles**; y mae llawer o'u llythyrau yn llyfr **D. E. Jenkins**, a Lloyd a sgrifennodd yr ysgrif goffa ar **Charles** yn yr *Evangelical Magazine*, 1815. Daeth yn ŵr dylanwadol iawn yn Methodistaeth y Gogledd - erbyn 1811 yr oedd yn un o'r unig dri clerigwr Methodistaidd yno. Nid oedd yn bregethwr gwllithog, ac yn wir ni hoffai hwyl na gorfoledd. Cymeradwyai ordeiniad 1811, serch (fel y digwyddai) na chymerth ran yn y gwasanaeth ordeinio. Cyhoeddodd yn 1817 *Amseryddiaeth Ysgrythyrol*, ac yn 1828 esboniad ar y Datguddiad; ac yn y blynyddoedd 1819-27 (**T. M. Jones**, *Llenyddiaeth fy Ngwlad*, 76) dug allan y drydedd gyfres o'r **Drysorfa**. Ymbriododd (1789) â Bridget Price o Ryd-colomenod (Llangrannog), a chawsant wyth o blant. Bu farw 6 Tachwedd 1836, a chladdwyd ym meddrod ei deulu yn Llanycil. Yr oedd ganddo ddiddordeb mawr yn y dulliau newydd o drin y tir. Bu ei feddiannau yn y Bala ac o'i chwmpas ym meddiant ei ddisgynyddion hyd yn ddiweddar iawn - y mae rhestr ohonynt yn *Seren y Bala*, 26 Mai 1951.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Heblaw'r cyfeiriadau uchod, chwiliier y fynegai i D. E. Jenkins, *Life of Thomas Charles* (Dinbych 1908)

Walter Davies, *General view of the agriculture and domestic economy of North Wales containing the counties of Anglesey, Caernarvon, Denbigh, Flint, Meirionnydd, Montgomery. Drawn up and published by order of the Board of Agriculture and Internal Improvement*, 129-30

Delweddau

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 101576075

Wikidata: Q7519221

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Trannu

Arddull APA

x

Jenkins, R. T., (1953). LLOYD, SIMON (1756 - 1836), clericwr Methodistaidd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-LLOY-SIM-1756>

Clifford

Preifatrwydd a Chwci
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Nodir gan
Llywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government